2.40

# CAN NEWYDD,

YN GOSOD ALLAN

## Y DDAMWAIN DDYCHRYNLLYD

A DDYGWYDDODD

### YN NGWAITH MWYN BLAENAFON,

*Ar yr 28ain o Dachwedd, 1838, trwy i'r dwfr orlifo dros geulanau'r afon a myned i Lefel, fel y boddodd pedwar-ar-ddeg, sef pedwar o wyr priod, saith o feibion, dwy ferch a bachgenyn,—Hefyd tri o blant a foddasant mewn un tŷ yn agos i'r Farteg.*

---

**Mesur, "Bryniau'r Iwerddon."**

---

1.

Holl wyr a gwragedd mwynaidd, a gweddaidd yma dewch,
Adroddaf ddamwain hynod sydd syndod, os nesewch,
Yn dangos i ni'n eglur nad oes ar dir yn byw,
Neb wyr pa fodd rhaid myned o flaen gorseddfaingc Duw.

2.

Rhai gan goed a cherig a ga'dd eu torri lawr,
A rhai trwy dân ga'dd fyned o flaen y Brenhin mawr,
Rhai ereill trwy ryfeloedd mae'n wir ar g'oedd i gyd,
Diau 'does neb yn tybio pa fodd rhaid 'mado a'r byd.

3.

Yr wythfed dydd ar hugain o dachwedd dyna'r gwir,
Dygwyddodd yn Sir Fynwe dro chwerwa garwa gur;
Sef yn Ngwaith Mwyn Blaenafon ceir trymion alarnâd,
Gan amryw blant ac ŵyrion 'rol colli eu tyrion dad.

4.

Trwy rym gwlawogydd trymion yr afon lifai i lawr,
A'r eira oddiar y mynydd ddoi gyda'r dwr mor fawr,
'Roedd megys fel pe cydau o wlân ddoi gyda'r dwr,
Yn ddiau 'roedd dychryndod yw ganfod ar bob gwr.

5.

Ac felly mewn i'r lefel diamau'r dwr a aeth,
Lle'n ddiau 'r oedd y gweithwyr bob un mewn cyflwr caeth;
Fe dreiwyd yno ei stopio ond ofer oedd ei gwaith,
Ca'dd deg a phedwar fyned i'r trag'wyddoldeb maith.

6.

Roedd pedwar o wyr gwragedd, rhain foddodd yn y fan,
A saith o fechgyn ieuangc o'r arswyd ddaeth yw rhan.
Dwy fenyw gyda hyny mae'n erwin ini'r nod,
Yw canlyn 'roedd bachgenyn o ddeutu wyth mlwydd oed.

7.

Un gwr mae'n siwr fwriadodd i ddo'd o'r culni caeth,
Ond cofiodd am ei blentyn, a throi yn ol wnaeth,
A'r feddwl safio ei fywyd o'r enbyd c'ledfyd clwy,
Ond galar ydyw d'wedyd ni welwyd mo honynt mwy.

Y20520 247X

8.

I ymofyn am ei lantern yn ol aeth gwr heb ble,
Heb feddwl fawr fod cymaint o berygl dd'od i'r lle,
Pa fodd bu arnynt wedyn nis gallaf dd'weud yn awr,
Dwr rhyngddynt oedd ac allan yn nghrombil daear fawr.

9.

Pwy all ddywedyd ei cyfyngder yn nyfnder daear faith,
Pan oedd y dwr mor greulon yn d'od i mewn i'r gwaith,
Dych'mygwn gallwn glywed rhai'n galed waeddi 'nawr,
O Dduw rho i mi noddfa yn nghlwyfau'r Meichiau mawr.

10.

Ymdrechau dynion ffyddlon o galon nos a dydd,
I blwmpio'r dw'r i fynu er bod eu bronau'n brudd,
Wrth gofio ei cydgreaduriaid ga'dd fyned mewn fath fodd,
'Does dyn heb galon galed a theimlad gwn na thôdd.

11.

Mae ffryndiau a pherthynasau au gruddiau'n wlyb mae'n siwr,
Wrth weled cymaint amser heb allu sychu'r dwr,
Gwraig am ei gwr yn galw, chwaer am ei brawd yn wir,
A phlant am dad yn gwaeddi o'r fath galedi clir.

12.

Gwraig arall gerllaw iddynt mawr ddychryn gafodd hi,
Gadawodd yn y boreu dri phlentyn ffraethwyn ffri,
Ond pan ddychwelodd adre' gwir ydyw'r geiriau siwr,
Y tri oedd wedi boddi, a'r ty yn llawn o ddw'r.

13.

Pwy galon byth ddychymmyg na chynyg dd'wedyd p'am,
Wrth wel'd y plant yn feirwon a ga'dd y fwynlon fam,
Mae'n ddigon i beru galar trwy Gymru wiwber wedd,
Wrth weled ei thri phlentyn 'r un pryd yn myn'd i'r bedd.

14.

O Dduw bydd di i dylwyth y meirwon hyn i gyd,
Yn gywir amddyffynydd tra byddont byw yn y byd,
Dysg iddynt dy wasanaethu a hyny'n bur heb boen,
Cant ganu yn y diwedd glod fyth i Dduw a'r Oen.

15.

A byddwn innau'n barod cyn del y ddyrnod ddwys,
Y bydd rhaid myn'd i waelod y beddrod ceudod cwys,
Does genym un diwrnod bod barod sydd yn ben,
Os felly cawn heb dewi ei foli mwy ,Amen.

EDWARD JONES, Môn a'i cânt.

**DIWEDD.**

---

*T. Price, Argraffydd, Merthyr.*